

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig Iechyd
Meddwl (Cymru)

Mehefin 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8154
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig Iechyd
Meddwl (Cymru)

Mehefin 2010



Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Rhaid i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 a chyflwyno adroddiadau ar unrhyw un ohonynt, a chaiff ystyried y materion a nodir yn Rheolau Sefydlog 15.3 ac 15.6 a chyflwyno adroddiadau ar y rheini.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ym mis Mehefin 2007 (fel y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth). Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn Rheol Sefydlog 15 yn benodol. Mae'r rhain i'w gweld yn www.cynulliadcymru.org

Aelodau'r Pwyllgor

<i>Aelod Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Janet Ryder (Cadeirydd)	Plaid Cymru	Gogledd Cymru
Alun Davies	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mike German	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Dwyrain De Cymru
William Graham	Y Ceidwadwyr Cymreig	Dwyrain De Cymru
Rhodri Morgan	Llafur	Gorllewin Caerdydd

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
Swyddogaeth y Pwyllgor	6
Y Mesur Arfaethedig	6
Cwmpas a bwriad	6
Darpariaethau Is-ddeddfwriaeth	7
Rhan 1: Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol	7
Rhan 2: Cydgysylltu a chynllunio gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd	7
Rhan 3: Aseidiadau ar ddefnyddwyr blaenorol gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd	8
Rhan 4: Eiriolaeth Iechyd Meddwl	8
Rhan 5: Rhan 6 o'r Mesur arfaethedig: Amrywiol ac atodol	10
Rhan 6.....	10
Materion sy'n codi o dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor	10
Cyffredinol.....	11
Cwmpas y Mesur arfaethedig	11
Rhan 2: Cydgysylltu a chynllunio gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd	11
Cynllun gofal a thriniaeth	11
Adolygu a diwygio'r cynllun gofal a thriniaeth	12
Rhan 3: Aseidiadau ar ddefnyddwyr blaenorol gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd	12
Rhan 4: Eiriolaeth iechyd meddwl	13
Ymestyn dyletswyddau eirioli yn y Mesur arfaethedig	13
Rhan 5: Cyffredinol.....	13
Rhan 6: Amrywiol ac Atodol	14
Tystion	15
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	16

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r gyfres gyntaf o reoliadau a wneir o dan Adran 17(8) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. **(Tudalen 12)**

Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ymgynghori'n ddigonol â phob parti perthnasol wrth lunio rheoliadau sy'n ymwneud â chynnwys cynlluniau gofal. **(Tudalen 12)**

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymhell defnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ar gyfer y rheoliadau sy'n sefydlu'r cyfnod o amser yn dilyn rhyddhau person o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd lle mae defnyddiwr gwasanaeth blaenorol yn parhau i fod yn gymwys i gael ailasesiad (22(1)(b)). **(Tudalen 13)**

Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai *Deddf Iechyd Meddwl 1983* gael ei diwygio i ddarparu bod y rheoliadau cyntaf a wneir o dan adrannau 130E i 130H yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. **(Tudalen 13)**

Swyddogaeth y Pwyllgor

1. O dan Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a ganlyn a chyflwyno adroddiad arnynt:

- Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn datgan y caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ... sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru'.
- Er nad yw'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i wneud sylwadau o ran rhinweddau'r cynnig y bwriedir i'r Mesur arfaethedig ei weithredu, mae Rheol Sefydlog 15.6(v) yn datgan y caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'unrhyw fater deddfwriaethol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru'.

2. Diben yr adroddiad hwn yw llywio dadl Cyfnod 1 y Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chamau deddfwriaethol dilynol.

Y Mesur Arfaethedig

3. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Mesur ar 22 Mawrth 2010. Yna, cafodd ei gyfeirio at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 i gyflwyno adroddiad ar ystyriaeth cyfnod 1 erbyn 2 Gorffennaf 2010.

Cwmpas a bwriad

4. Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi dyletswyddau ar Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas ag asesu iechyd meddwl a thrin anhwylder meddwl. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol ar gyfer cleifion cymwys. Y personau hynny yw'r rhai sy'n ddarostyngedig i bwerau gorfodaeth Deddf Iechyd Meddwl 1983, a phersonau sy'n cael eu trin mewn ysbyty (oherwydd bod ganddynt anhwylder meddwl) ac nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau eirioli o dan y gyfundrefn bresennol. Bydd eirioli'n ymwneud ag eirioli sy'n gysylltiedig â materion ynghylch iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Darpariaethau Is-ddeddfwriaeth

5. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys y pwerau a ganlyn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth:-

Rhan 1: Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol

6. Mae'r Rhan hon o'r Mesur arfaethedig yn darparu y bydd gwasanaethau gofal iechyd meddwl sylfaenol lleol ar gael ledled Cymru, a gaiff eu darparu gan Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol a fydd yn gweithio mewn partneriaeth.

7. Nid oes unrhyw bwerau dirprwyedig yn y Rhan hon o'r Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, mae pwerau mewn mannau eraill yn y Mesur a fyddai'n effeithio ar Ran 1. Mae adran 42 yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu'r ffordd y gweithredir Rhan 1 mewn perthynas ag ardaloedd awdurdodau lleol. Mae adran 44 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chymhwystra unigolion i arfer swyddogaethau partner iechyd meddwl lleol er mwyn cynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol o dan Rhan 1. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau sy'n nodi cymhwystra unigolion i fod yn gydgyssylltwyr gofal mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

Rhan 2: Cydgysylltu a chynllunio gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd

8. Mae'r rhan hon o'r Mesur arfaethedig yn darparu y bydd gwasanaethau gofal iechyd meddwl sylfaenol lleol ar gael ledled Cymru, a gaiff eu darparu gan Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol a fydd yn gweithio mewn partneriaeth.

9. **Adran 14(4):** caiff y rheoliadau ddarparu ar gyfer dynodi'r darparydd gwasanaeth iechyd meddwl sy'n gyfrifol am benodi cydgysylltydd gofal pan fydd Bwrdd Iechyd Lleol ac awdurdod lleol ill dau yn darparu gwasanaethau i berson. **Gweithdrefn: negyddol** - wedi'i chyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan fod y rheoliadau yn rhoi manylion ar gyfer cynllun sy'n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ei hun.

10. **Adran 15(3):** galluogi gwneud rheoliadau sy'n pennu y daw penodiad cydgysylltydd gofal i ben. **Gweithdrefn: negyddol** - wedi'i

chyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol fel bod yn rhan o'r cynllun penodi sy'n gysylltiedig â phwerau adran 14(4).

11. **Adran 17(1)(c)**: yn darparu y gall pwerau dirprwyedig gael eu defnyddio i ragnodi'r amgylchiadau pan fo'n rhaid adolygu cynlluniau gofal a thriniaeth, ac o bosibl eu diwygio. Mae adran 17(8) yn gwneud darpariaethau pellach ynghylch cynlluniau gofal a thriniaeth.

Gweithdrefn: negyddol - wedi'i chyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan ei bod yn ymwneud â manylion gweinyddol a gweithdrefnol ac yn debygol y bydd angen diwygio'r rhain yn y dyfodol (a hynny efallai ar fyr rybudd).

Rhan 3: Aseidiadau ar ddefnyddwyr blaenorol gwasanaethau ieched meddwl eilaidd

12. Mae'r Rhan hon o'r Mesur yn cynnig aseiad newydd o'r angen am wasanaethau, os bernir bod hynny'n ofynnol, i unigolion sydd wedi'u rhyddhau o wasanaethau ieched meddwl eilaidd.

13. **Adran 22**: caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer y cyfnod o amser pan fydd gan berson yr hawl i ofyn am aseiad ar ôl ei ryddhau o wasanaethau eilaidd. **Gweithdrefn: negyddol** - wedi'i chyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan y bydd y rheoliadau'n ymwneud â chynllun sy'n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur, a gall fod angen eu hadolygu o dro i dro.

14. **Adran 28**: caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch penderfynu preswyliaid arferol person. **Gweithdrefn: negyddol** - wedi'i chyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol fel sicrhau cysondeb gydag is-ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â'r un mater.

Rhan 4: Eiriolaeth Iechyd Meddwl

15. Mae Rhan 4 o'r Mesur arfaethedig yn diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 ("Deddf 1983") mewn perthynas ag Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol. Yn dilyn diwygio, bydd Deddf 1983 wedyn yn darparu ar gyfer cynllun eiriolaeth annibynnol i unigolion sy'n cael triniaeth orfodol o dan y Ddeddf, ac i gleifion sydd yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth am anhwylder meddwl nad ydynt o dan orfodaeth Deddf 1983.

16. Mae **Adrannau 29 i 36 yn mewnosod adrannau newydd 130E i 130L** yn Neddf 1983. Mae'r Ddeddf ar hyn o bryd yn darparu pwerau

dirprwyedig mewn perthynas ag eirioli annibynnol ar ffurf rheoliadau - "Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol) (Cymru) 2008". Er mwyn cyflawni amcanion polisi'r Mesur, mae'r pwerau dirprwyedig newydd a amlinellir isod wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru.

17. Mae **adran newydd 130E** yn sefydlu egwyddor o annibyniaeth i eiriolwyr, ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddisgrifio'r personau y dylai'r Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol fod yn annibynnol arnynt.

18. Mae **adrannau newydd 130F a 130G** yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mathau eraill o gymorth a chyingor i Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, yn otystal â'r rheini sydd wedi'u hamlinellu yn adrannau 130F a 130H.

19. Mae **adran newydd 130H** yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu personau, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â'r claf yn broffesiynol, y caiff yr Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol ymwled â hwy a'u cyfwled mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan Ddeddf 1983.

20. **Gweithdrefn: negyddol i gyd.** Bydd y weithdrefn negyddol yn berthnasol i'r holl reoliadau a wneir o dan Ddeddf 1983 fel y'i diwygiwyd. Caiff hyn ei gyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol ar y sail bod rheoliadau o'r fath yn cael eu defnyddio i roi manylion gweinyddol, ac y bydd yn ofynnol iddynt fod yn ddigon hyblyg i ymateb i ddatblygiadau a gwelliannau disgwylidig i eiriolaeth yng Nghymru. Mae'r weithdrefn negyddol yn adlewyrchu'r hyn sy'n gymwys i ddarpariaethau presennol Deddf 1983.

21. Mae **adran 42** yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu sut y caiff Rhan 1 o'r Mesur ei weithredu mewn perthynas ag ardal awdurdod lleol. Mae **adran 44** yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chymhwystra unigolion i gyflawni swyddogaethau partner iechyd meddwl lleol wrth gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol o dan Rhan 1. Mae hefyd yn cynnwys y pŵer i wneud rheoliadau sy'n nodi cymhwystra unigolion i fod yn gydgysylltwyr gofal mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

22. Mae **adran 43** yn darparu pwerau tebyg mewn perthynas â Rhan 3 o'r Mesur.

23. **Gweithdrefn: adrannau 42 a 43 cadarnhaol.** Caiff y weithdrefn gadarnhaol ei chyfiawnhau fel un briodol yn y Memorandwm

Esboniadol gan fod potensial i'r adrannau hynny addasu darpariaethau Rhan 1 sydd, ynddynt eu hunain, yn destun craffu llawn gan y Cynulliad; o ganlyniad, ystyrir bod y rheoliadau yn ddarostyngedig i lefel graffu debyg.

24. **Adran 44 negyddol:** wedi'i chyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol i fod yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau yn yr arferion proffesiynol yn y dyfodol.

Rhan 5: Rhan 6 o'r Mesur arfaethedig: Amrywiol ac atodol

25. **Adran 46:** Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â thai a gwasanaethau lles, ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â llety a neilltuir a llety a sicrheir o dan Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996. **Gweithdrefn: negyddol:** wedi'i chyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan fod y ddarpariaeth hon yn ymwneud â rhestrau o wasanaethau a all newid gydag amser.

26. Mae **adran 51** yn darparu y daw'r Mesur i rym yn unol â'r ddarpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn. **Gweithdrefn: dim gweithdrefn,** fel sy'n arferol gyda darpariaethau cychwyn.

Rhan 6

27. Fodd bynnag, daw Rhan 6 o'r Mesur arfaethedig (ac eithrio adrannau 49(1) a 50) ac unrhyw ddarpariaeth sy'n cynnwys pŵer i wneud rheoliadau neu orchymyn, i'r graddau bod y ddarpariaeth yn cynnwys pŵer o'r fath, i rym ar ddiwedd cyfnod o ddau fis, sy'n dechrau pan fydd y Mesur arfaethedig yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

Materion sy'n codi o dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor

28. Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru) ar 20 Mai 2010 a chafodd dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan Edwina Hart MBE AC, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Cyffredinol

29. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Mesur arfaethedig yn cyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng pwerau ar ei wyneb a phwerau is-ddeddfwriaeth a roddir i Weinidogion Cymru.

30. Er bod nifer sylweddol o bwerau gwneud rheoliadau yn y Mesur arfaethedig, mae'r Pwyllgor yn cytuno na fydd y tu hwnt o gymhleth.

31. O edrych ar y darpariaethau is-ddeddfwriaeth y mae'n eu cynnwys, nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

Cwmpas y Mesur arfaethedig

32. Ystyriodd y Pwyllgor yr awgrymiadau y dylai terfynau amser yn nodi uchafswm y cyfnod rhwng cael cyfeiriad gan feddyg teulu am asesiad a chynnal yr asesiad sylfaenol a rhwng cymhwyso fel claf yn Rhan 2 a chwblhau cynllun gofal gael eu cynnwys yn y Mesur arfaethedig.

33. Cytunodd y Pwyllgor y dylai asesiadau fod yn seiliedig ar anghenion gofal clinigol ym mhob achos unigol yn hytrach nag ar gyfyngiadau amser penodedig.

Rhan 2: Cydgysylltu a chynllunio gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd

34. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r defnydd o'r weithdrefn penderfyniad negyddol ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth sy'n deillio o Adran 14(4) ac Adran 15(3) o'r Mesur arfaethedig, sy'n rhoi pwerau cyffredinol i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i ddynodi pa ddarparwr gwasanaeth iechyd meddwl sy'n gyfrifol am benodi cydgysylltydd gofal, pan fydd Bwrdd Iechyd Lleol ac awdurdod lleol ill dau yn darparu gwasanaethau i berson ac Adran 15(3), sy'n ymdrin â dwyn trefniadau felly i ben, os oes angen, os nad yw'r darparwr gwasanaeth a'i penododd yn darparu gwasanaeth i'r claf mwyach.

Cynllun gofal a thriniaeth

35. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Mesur arfaethedig yn datgan y bydd yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r cynllun gofal a thriniaeth "cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny". O gofio y gallai hyn greu cymhelliad i lunio cynlluniau sy'n adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael yn hytrach nag anghenion y claf, mae'r

Pwyllgor o'r farn y dylai'r gyfres gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 17(8) fod yn ddarostyngedig i'r penderfyniad cadarnhaol (yn hytrach na negyddol).

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r gyfres gyntaf o reoliadau a wneir o dan Adran 17(8) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

36. Gan gadw mewn cof pa mor bwysig yw rheoliadau ynghylch cynnwys cynlluniau gofal, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ymgynghori'n ddigonol â phob parti perthnasol wrth lunio'r rheoliadau hyn.

Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ymgynghori'n ddigonol â phob parti perthnasol wrth lunio rheoliadau sy'n ymwneud â chynnwys cynlluniau gofal.

Adolygu a diwygio'r cynllun gofal a thriniaeth

37. Wedi ystyried sicrwydd y Gweinidog mai mân iawn fydd unrhyw newidiadau a fwriedir o ganlyniad i adolygu a diwygio'r cynlluniau gofal a thriniaeth ac y byddai canllawiau addas yn cyd-fynd â hwy i fonitro ac archwilio eu cyflwyno, mae'r Pwyllgor yn fodlon â dewis y weithdrefn penderfyniad negyddol ar gyfer y rheoliadau sy'n darparu ar gyfer adolygu a diwygio'r cynllun (17(1)(c) a 17(9)).

38. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â sicrwydd y Gweinidog y bydd Rhan 2 o'r Mesur arfaethedig, sef yn adrannau 14(4), 15(3), 17(8), 17(1)(c) a 17(9) yn dechrau yn 2011.

Rhan 3: Aseidiadau ar ddefnyddwyr blaenorol gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd

39. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ag esboniad y Gweinidog bod digon o hyblygrwydd yn y pwerau gwneud rheoliadau (yn hytrach na nodi ar wyneb y Mesur arfaethedig) yn adrannau 22(22(2), 25(2)(b) a 28(1) o Ran 3 o'r Mesur arfaethedig sy'n gysylltiedig ag asesiad o gyn ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

40. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r defnydd o'r weithdrefn penderfyniad negyddol ar gyfer yr addasiadau i'r cyfnod o amser y mae'n rhaid cyflwyno adroddiad o'r asesiad i'r person a gaiff ei asesu (Adran 25(2)(b)).

41. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r rheoliadau sy'n sefydlu'r cyfnod o amser yn dilyn rhyddhau person o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd, lle mae defnyddiwr gwasanaeth blaenorol yn parhau i fod yn gymwys i gael ailasesiad, (Adran 22(1)(b) ddilyn y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymhell defnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ar gyfer y rheoliadau sy'n sefydlu'r cyfnod o amser yn dilyn rhyddhau person o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd lle mae defnyddiwr gwasanaeth blaenorol yn parhau i fod yn gymwys i gael ailasesiad (22(1)(b).

Rhan 4: Eiriolaeth iechyd meddwl

Ymestyn dyletswyddau eirioli yn y Mesur arfaethedig

42. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â sicrwydd y Gweinidog bod cynlluniau eang i ymgynghori â rhanddeiliaid yn ystod y broses o lunio rheoliadau o dan yr adran 130E(4) newydd, a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi'r personau y dylai Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol fod yn annibynnol arnynt.

43. Sefydlodd y Pwyllgor bod y defnydd o'r weithdrefn penderfyniad negyddol wrth wneud rheoliadau o dan y pwerau yn yr adran 130E newydd yn cydymffurfio â darpariaethau yn *Neddf Iechyd Meddwl 1983*. Er hynny, gan fod Rhan 4 o'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer cynllun statudol estynedig o eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r rheoliadau cyntaf a wneir o dan adrannau 130E i 130H gael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ac y dylai diwygiadau priodol gael eu gwneud i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i hwyluso hyn.

Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai *Deddf Iechyd Meddwl 1983* gael ei diwygio i ddarparu bod y rheoliadau cyntaf a wneir o dan adrannau 130E i 130H yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Rhan 5: Cyffredinol

44. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y pwerau gwneud rheoliadau yn adrannau 42 a 43 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

45. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y pwerau gwneud rheoliadau yn adran 44 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol, ar yr amod bod partiön sydd â diddordeb yn y rheoliadau, yn arbennig grwpiau proffesiynol perthnasol, yn rhan o'r ymgynghoriad ar eu cynnwys.

Rhan 6: Amrywiol ac Atodol

46. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ei bod yn angenrheidiol rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i nodi gwasanaethau sy'n berthnasol i wasanaethau tai neu les y tu hwnt i ddarparu llety o dan Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996.

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 10 Mai 2010.
Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r sesiwn yn www.cynulliadcymru.org

20 Mai 2010

Edwina Hart MBE AC Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Claire Fife Rheolwr Deddfwriaeth Iechyd Meddwl,
Llywodraeth Cymru

Tracey Jones Cynghorydd Cyfreithiol – Y Tîm Bwyd ac
Iechyd, Llywodraeth Cymru

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig a ganlyn. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.cynulliadcymru.org

Dogfen	Cyfeirnod
Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru)	CA(3)-14-10(p1)
Memorandwm Esboniadol	CA(3)-14-10(p2)
Adroddiad y Cyngorwyr Cyfreithiol	CA(3)-14-10(p3)
Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog ac ymateb	CA(3)-14-10(p4)a(5)